Pwy sy'n cynnal yr Arolwg?

- Tîm yng Ngholeg Brenhinol y Seiciatryddion.

- I gael gwybod mwy am yr arolwg, ewch i www.rcpsych.ac.uk/napt

Neu, cysylltwch â ni'n uniongyrchol:

FREEPOST - RLTY-GCSU-TBHX
NAPT
Royal College of Psychiatrists' Centre for Quality Improvement
4th Floor, Standon House
21 Mansell St
London E1 8AA

- E-bost: napt@cru.rcpsych.ac.uk
- Ffôn: 020 7977 4974 neu 020 7977 6641

DIOLCH am dreulio amser yn darllen y ddalen wybodaeth hon

Tîm Prosiect NAPT

'Triniaethau Trafod'

NAPT

Arolwg bodlonrwydd cenedlaethol

CCQI College Centre for Quality Improvement

RC PSYCH Royal College of Psychiatrists

HQIP Healthcare Quality Improvement Partnership

Beth yw Triniaethau Trafod?

- **Arolwg cenedlaethol** am sut ydych yn teimlo am y triniaethau rydych wedi'u derbyn ar gyfer gorbryder ac iselder.
- Mae pob gwasanaeth perthnasol yng Nghymru a Lloegr wedi cael eu gwahodd i gymryd rhan.

Beth yw pwrpas yr arolwg?

- I weld a ydych yn fodlon ar y driniaeth rydych wedi'i derbyn.
- I weld beth mae eich gwasanaeth yn ei wneud yn dda a beth allai gael ei wella.
- I'n helpu ni gael darlun cenedlaethol o beth sydd angen ei wella.

Beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth y byddwch chi'n ei rhoi?

- Bydd eich atebion yn cael eu casglu a'u dadansoddi.
- Bydd eich gwasanaeth yn derbyn adroddiad am ba mor fodlon yw pobl ar eu gwasanaeth.
- Bydd unrhyw sylwadau ysgrifenedig yn cael eu dadansoddi a'u defnyddio i baratoi adroddiad cenedlaethol am farn pobl am y gofal y maent yn eu derbyn.
- Bydd copi o'r adroddiad cenedlaethol ar gael ym mis Hydref 2011. Bydd ar gael i'w lawrlwytho yn www.rcpsych.ac.uk/napt

A fydd modd fy adnabod i yn bersonol?

- **Na fydd**. Bydd eich adborth yn **ANHYSBYS**.
- **PEIDIWCH** ag ysgrifennu eich enw ar y ffurflen.
- Dychwelwch y ffurflen yn uniongyrchol i'r tîm yng Ngholeg Brenhinol y Seiciatryddion sy'n trefnu'r arolwg.
- Bydd y tîm hwn yn rhoi adborth i'ch gwasanaeth therapi chi ond ni fydd yn bosibl iddynt wybod pwy gwblhaodd yr arolwg.

Oes rhaid i mi lenwi'r arolwg?

- **Nac oes**. Eich dewis chi a neb arall yw cwblhau a dychwelyd yr arolwg ai peidio.
- **NI** fydd llenwi neu beidio â llenwi'r holiadur hwn yn effeithio ar eich triniaeth.

Beth sydd angen i mi ei wneud ar ôl llenwi'r arolwg?

- Rhowch ef yn yr amlen a ddarparwyd. Seliwch yr amlen a'i chyflwyno naill ai i'r gwasanaeth neu ei phostio atom yn rhad ac am ddim.
- Os ydych yn colli eich holiadur, gallwch lawrlwytho un newydd yn www.rspsych.ac.uk/napt
- Neu, cewch lenwi'r ffurflen drwy ddolen ar ein gwefan
- Os ydych yn colli'r amlen, cewch ddychwelyd yr arolwg i'r cyfeiriad rhadbost drosodd
- Dychwelwch yr arolwg erbyn_____

Author and date of upload: Elizabeth Hancock, 4 July 2011